

TEITHIAU DYSGU AR GYFER BUSNESAU TWRISTIAETH AWYR AGORED

Un o'r ffyrdd gorau i gael syniadau am sut y gallwch wella a datblygu'r hyn y mae eich busnes yn ei wneud, a sut y gallwch ei farchnata yn well, yw cael gwybod beth mae busnesau eraill yn ei wneud.

Dyma'r rheswm pam y mae'r Prosiect Twristiaeth Awyr Agored wedi trefnu rhai cyfleoedd arbennig iawn i wneud yn union hynny. Rydym wedi edrych o gwmpas y Deyrnas Unedig ac Iwerddon i ddod o hyd i leoedd sydd ag enw da ar gyfer twristiaeth awyr agored a gyda busnesau sy'n cymryd dulliau arloesol a diddorol

Bydd pob un o'r teithiau Dysgu rydym wedi'u trefnu'n cynnwys taith i'r gyrchfan, gyda busnesau o'r un anian o'r ardaloedd y prosiect, i glywed cyfres o gyflwyniadau gan fusnesau dethol gyda straeon gwych i'w hadrodd. Bydd digon o gyfle i ofyn cwestiynau a thrafodaethau i roi'r cyfle i gael gwybod mwy.

Bydd cyflwyniadau yn rhoi mewnwelediad i sut mae busnesau wedi datblygu eu cynnig, yr elfennau ymarferol o redeg eu busnes, sut maent yn marchnata eu hunain, sut maent yn gweithio gyda'i gilydd a sut maent yn gweithio gyda'u cyrchfan.

Bydd y teithiau dysgu hyn yn ddefnyddiol i bob busnes sy'n cynnig profiadau yn seiliedig ar yr awyr agored, o rai sydd newydd ddechrau eu busnes i'r rhai sydd wedi bod o gwmpas ychydig yn hirach ac yn awyddus i adolygu sut maent yn ei wneud a sut y gallent dyfu neu arallgyfeirio.

BYDD Y MANTEISION I FUSNESAU YN CYNNWYS:

- Ysbrydoliaeth a syniadau!
- Y cyfle i dreulio amser oddi wrth y gofynion dyddiol i fyfyrto ynghylch sut y gallech dyfu eich busnes
- Dysgu o fusnesau eraill sydd wedi wynebu'r un heriau rydych chi wedi'u gwneud - ac yn gwybod sut i wneud hynny, nid dim ond siarad am y peth
- Rhwydweithio anffurfiol gyda busnesau yn yr un sector â chi - rhannu'r pleserau a'r rhwystredigaethau yn ogystal â chael syniadau ymarferol ac awgrymiadau
- Dewch i weld sut mae mannau eraill wedi dod â'u busnesau at ei gilydd i gyflawni mäs critigol sy'n fwy na chfyfanswm eu rhannau
- Rydym yn cynllunio dwy Daith Dysgu eleni, gyda dwy arall i ddilyn y Gwanwyn nesaf. Mae gan bob un rhywbeth unigryw i'w gynnig. Bydd dyddiadau a lleoliadau teithiau dysgu 2013 yn dilyn isod. Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu unrhyw un o'r teithiau, rydym yn eich gwahodd i gysylltu â ni i drafod.
- Bydd pob taith ddysgu yn golygu teithio ar y diwrnod blaenorol, aros dros nos (2 noson), diwrnod o gyflwyniadau gyda llawer o amser i ofyn cwestiynau, a chinio rhwydweithio anffurfiol. Mae amserlen ddrafft ynghlwm.

DYDDIAD CAU AR GYFER MYNEGI DIDDORDEB YW: 15 HYDREF, 2013

Swyddfa Gwynedd:
Prosiect Twristiaeth Awyr Agored
Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal
Cwsmer Cyngor Gwynedd,
Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH
Hefyd gallwch ffonio: 01286 679 390
E-bost: sionedmairgreen@gwynedd.gov.uk

Swyddfa Conwy:
Prosiect Twristiaeth Awyr Agored
Twristiaeth, Conwy Business Centre,
Junction Way Llandudno Junction,
Conwy LL31 9XX
Hefyd gallwch ffonio: 01492 574 201
E-bost: jon.merrick@conwy.gov.uk

TAITH 1: DINGLE A GORLLEWIN CORK - TWRISTIAETH AWYR AGORED, MYTHAU A CHWEDLAU.

DYDDIAD: DYDD MAWRTH 5 A DYDD MERCHER 6 TACHWEDD 2013

Dingle a Gorllewin Cork yw'r cyrchfannau mwyaf llwyddiannus yn Iwerddon oherwydd y golygfeydd rhagorol, hanes a threftadaeth. Mae twristiaeth awyr agored wedi tyfu drwy gyfuniad grymus o weithgareddau sy'n archwilio'r dirwedd drwy gyfrwng tywyswyr arbenigol ac adroddwyr stori. Mae Gorllewin Cork hefyd yn hyrwyddo ei hun gyda'i fwyd rhagorol gyda chymorth ei gynnyrch a'r amgylchedd lleol.

Mae'r Daith Ddysgu hon yn cynnwys diwrnod yn Dingle a'r bore canlynol yng Ngorllewin Cork.

Mae siaradwyr yn cynnwys

- Ann Curran yw un o arweinwyr blaenllaw Grŵp Antur Dingle, grŵp o fusnesau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynnig twristiaeth awyr agored Dingle. Bydd Ann hefyd yn cymryd y grŵp ar un o'r teithiau cerdded arbennig iawn a gynigir gan ei chwmmi Hidden Ireland.
- Cian O'Driscoll, Play at Height (dringo, rhaffau uchel a gwibio gwifren)
- Jim Kennedy, Atlantic Sea Kayaking
- Anne Ferguson, Ocean Addicts (deifio)
- Sally Barnes, Woodcock Smokery
- Stephen Sage, West Cork Foods

Mae ein siaradwyr wedi datblygu profiadau newydd megis caiacio nos, chwilota arfordirol, ymweld â safleoedd hanesyddol a dweud straeon, yn ailddyfeisio eu cynnig yn gyson, ond bob amser yn gwneud yn siŵr ei fod yn ddilys.

Hefyd ceir cyflwyniadau gan rai cynhyrchwyr bwyd artisan hynod wreiddiol, sy'n gweithio gyda darparwyr gweithgareddau i gynnig profiad gwahanol o dwristiaeth awyr agored.

Bydd yr hyn a ddysgir o'r daith hon yn cwmpasu

- Datblygu profiadau newydd ac arloesol sy'n cyd-fynd â'r hyn y mae'r gyrchfan yn enwog amdani
- Cydweithio gyda mathau tebyg a gwahanol o fusnesau
- Cymryd dulliau newydd llawn dychymyg ar gyfer eich cynnig i wneud iddo sefyll allan yn y farchnad.

TAITH 2: ADGAN Y LLYNNOEDD - ADVENTURE CAPITAL UK

DYDDIAD: DYDD MAWRTH 3 RHAGFYR

Mae Ardal y Llynnoedd wedi bod yn enwog am olygfeydd, cerdded a dringo erioed; mae'r fenter AdCap wedi manteisio ar hyn i ddiweddarau'r lle yn llwyr ar gyfer marchnad newydd, iau sy'n chwilio am rywbeth mwy cyffrous. Mae'r fenter yn dod â busnesau at ei gilydd i weithio o dan y brand AdCap newydd.

Yn ystod y daith ddysgu hon byddwch yn clywed sut y cafodd AdCap ei ddatblygu a'i ddarparu, sut mae'r busnesau wedi ehangu eu cynnig i gyd-fynd, a'r hyn y maent wedi'i wneud i sicrhau eu bod wedi elwa o'r buddsoddiad. Byddwch hefyd yn dysgu sut mae gwyliau a digwyddiadau â thema awyr agored wedi tyfu i ddod yn elfen bwysig o AdCap.

Bydd amrywiaeth o siaradwyr gwych yn cynnwys

- Andrea Runkee, Rheolwr Prosiect AdCap
- Sophie Cade, Digwyddiadau Chwaraeon a Gŵyl Spoke Eden Bike
- Graham Patton, Lakeland Trails (rhedeg llwybrau a digwyddiadau)
- Neil Manning, Rheolwr Canolfan Ymwelwyr Brockhole (gweithgareddau awyr agored)
- Nevil Jeffery a Paul Brown, Cyrchfan a Marina Low Wood Bay (chwaraeon dŵr a digwyddiadau'r Great North Swim a Chill)

Bydd y daith hon o ddiddordeb i fusnesau sydd eisiau

- Dysgu sut i gydweithredu gydag eraill i ehangu ar yr hyn y gall y gyrchfan ei chynnig
- Buddsoddi mewn gweithgareddau a digwyddiadau awyr agored newydd
- Deall y manylion o redeg a darparu digwyddiadau llwyddiannus gyda'r holl heriau o faterion iechyd a diogelwch i farchnata
- Gweithio gyda chanolfannau sefydledig a sefydliadau eraill i ddarparu gweithgareddau awyr agored iddynt



TWRISTIAETH AWYR AGORED TEITHIAU DYSGU

ARDAL Y LLYNNOEDD ADVENTURE CAPITAL

DYDD MAWRTH 3 RHAGFYR

- 09.45 Gwneud eich ffordd i Cumbria Tourism ar gyfer cyflwyniadau
Dysgu am Fusnes yn Cumbria Tourism Staveley – coffi wedi i chi gyrraedd
- 10.00 Andrea Runkee, Rheolwr Prosiect Adventure Capital UK – trosolwg
o'r cynnig awyr agored yn y Llynnoedd a gwersi allweddol ynghylch busnes
- 10.30 Jo Houghton, Rheolwr Marchnata a Gwerthiannau Gwyliau (Ardal y Llynnoedd), neu
Jane Saxon, Rheolwr Cyffredinol Gwyliau, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – amlinelliad o'r
partneriaethau newydd a'r dull ar gyfer gweithgaredd awyr agored yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- 11.00 Graham Patton, Lakeland Trails/Rides – trosolwg o ddigwyddiadau rhedeg
llwyddiannus Lakeland Trail a'r gwersi allweddol ynghylch busnes a digwyddiadau
- 11.30 Sophie Cade – Gŵyl Spoke a Digwyddiadau Chwaraeon Eden Bike
a'r gwersi allweddol ynghylch busnes a digwyddiadau
- 12.30 Cinio yn Brockhole, Ystafell Claife, Canolfan Ymwelwyr Ardal y Llynnoedd
- 13.00 Neil Manning, Rheolwr y Ganolfan Ymwelwyr yn sôn am weithgareddau awyr
agored a busnesau wedi'u hallanoli gan gynnwys Predator Park, Nofio Dŵr Agored,
llogi Canŵ, Beic Cwch a Theithiau Pennau Coed –gwersi allweddol ynghylch busnes
- 14.00 Paul Noble, Cyfarwyddwr 3 busnes awyr agored: Total Adventure
(cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau awyr agored), Canŵod a Chaiacau Windermere
a Llogi Beiciau Grizedale. Cwrdd yn Brockhole. Gwersi allweddol ynghylch busnes
- 15.30 Nevil Jeffery Gwesty a Marina Low Wood Bay, Rheolwr Cyffredinol a Paul
Brown, Rheolwr Chwaraeon Dŵr. Cwrdd yn Lolfa'r Clwb yn y Gwesty
- Nevil - Great North Swim a Chill Swim – gwersi allweddol ynghylch digwyddiadau
- Paul – Canolfan Chwaraeon Dŵr, aildatblygodd y cynnig ar ôl i derfyn cyflymder 10 milltir/
awr gael ei gyflwyno rhai blynyddoedd yn ôl – gwersi allweddol ynghylch digwyddiadau
- 16.45 Prydau yn Lolfa'r Clwb, Gwesty Low Wood.
- 1800 Taith dychwelyd

TWRISTIAETH AWYR AGORED TEITHIAU DYSGU

DINGLE A GORLLEWIN CORK

DYDD LLUN 4 TACHWEDD

Hedfan i Cork a gyrru i Dingle a ddylai gymryd 2.5 awr.

Dros nos yn ardal Dingle.

DYDD MAWRTH 5 TACHWEDD

10.00 Cyrraedd ar gyfer bore o gyflwyniadau

Cyflwyniadau x 3

Ann Curran – Hidden Ireland Tours

Jeremy Owen - Jamie Knox Watersports

Cian O’Driscoll - Play at Height

Cwestiynau a thrafodaeth

12.30 Cinio

13.30 Bydd Ann Curran yn mynd â chi ar Daith Gerdded Hidden Ireland

16.00 Gyrru i Westy West Cork yn Skibbereen.

DYDD MERCHER 6 TACHWEDD

09.00 Lleoliad – yn cael ei drefnu gan West Cork Foods

Jim Kennedy – Atlantic Sea Kayaking

Sally Barnes – Woodcock Smokery/Stephen Sage – West Cork Foods

Jerome o Kinsale Harbour Cruises

Anne Ferguson, Ocean Addicts

Cwestiynau

13.00 Cinio

13.30 Taith dychwelyd



OUTDOORS TOURISM LEARNING JOURNEYS

CONWY/GWYNEDD:

MAE AMRYWIAETH YN DDA I CH BUSNES

DYDDIAD: 13TH AND 27/28TH NOVEMBER

Mae twristiaeth awyr agored yn sector allweddol i economi gogledd Cymru ac, erbyn hyn, i economi Iwerddon hefyd. Fel sector mae ganddo botensial mawr i ddarparu cyfleodd cadarnhaol sy'n gwella bywydau pobl, beth bynnag eu hoed neu eu gallu. Mae amrywiaeth hefyd yn beth da i'ch busnes a bydd y cwrs yma'n edrych ar gyfleoedd busnes newydd a sut i fanteisio arnyn nhw.

Mae gan fusnesau twristiaeth awyr agored her fawr o'u blaenau wrth i'r sector fynd trwy gyfnod o newidiadau. Mae rhai elfennau, fel canolfannau addysgol, yn dirywio, gan fod darpariaethau addysgol, sydd wedi bod yn asgwrn cefn i'r sector, yn wynebu her anodd yn sgil adrefnu a chaledi ariannol.

Mae marchnad addysg awyr agored yn newid mewn ffyrdd eraill hefyd wrth iddi ddod yn fwy aliniedig i gymhellion twristiaeth prif ffrwd a chanolbwyntio ar "gynnyrch" gweithgareddau adrenalin. Felly mae hwn yn gyfnod allweddol i ddarparwyr twristiaeth awyr agored ystyried eu marchnad bosib yn ogystal â'u nodau ehangach.

Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud ar gyfer Prosiect Twristiaeth Awyr Agored wedi dangos y gall darparwyr twristiaeth awyr agored gael effaith cadarnhaol ar eu busnesau, yn ogystal ag ar gleientiaid, drwy wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad o fewn y sector.

Bydd y cwrs yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd a'i rannu'n ddau fodiwl. Bydd y modiwl cyntaf yng Nghanolfan Fusnes Cyffordd Llandudno a'r ail fodiwl mewn canolfan breswyl. Bydd y cwrs yn gyfle i bobl ddeall heriau'r sector ac edrych ar eu darpariaethau gan wneud aseiniad ymarferol ar eu gweithgareddau.

Ariennir y cwrs yn llawn gan y Prosiect Twristiaeth Awyr Agored. Mae'r cwrs wedi ei achredu gan ddarparwr allanol a gall y cyfranogwyr gyflwyno'r gwaith y maent yn ei wneud fel rhan o'r cwrs ar gyfer eu credydau Datblygu Proffesiynol Parhaus.



Bydd y cwrs yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Pam cydraddoldeb? A yw meddwl am gydraddoldeb a chynhwysiad yn faich neu'n gyfle?
- Sesiwn gyflwyno i gynhoi'r materion ac i gyflwyno'r dull;
- Herio'r meddylfryd bod arferion yn dda – dyma elfen bwysig Diwrnod 1. Mae profiadau grwpiau lleiafrifol yn wahanol iawn i'r profiadau a adroddwyd gan ddarparwyr a busnesau. Mae'n amlwg bod angen newid y meddylfryd hwn.
- Beth mae'r sector yn ei wneud yn dda? Adnabod cyfleoedd, anawsterau. Beth mae pobl o'r "tu allan" yn ei feddwl am y sector?
- Manteision canolbwyntio ar gynhwysiad e.e. cwsmeriaid rydym ni'n colli;
- Gwahaniaeth marchnad o safbwynt cydraddoldeb – cyraedd mwy o bobl a chynyddu perthnasedd;
- Astudiaethau achos arferion da – o fewn ardal y prosiect a thu hwnt;
- Her arferion presennol - sesiynau rhyngweithiol ar faterion presennol. Os oes digon o ddiddordeb, gallwn gyflwyno methodoleg Dysgu Gweithredol a sefydlu Setiau Dysgu Gweithredol.

